**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**24ain Medi 2007**

**Manylion y Gyllideb ar gyfer 2008/09**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid & Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r pwysau ar gyllideb refeniw yr Awdurdod ac i roi mwy o fanylion ar feysydd o'r gwasanaeth lle gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd

**2.** Gwneir sylwadau hefyd ar y setliad grant cefnogi refeniw ar gyfer 2008/09 ymlaen.

## Cefndir

**3.** Cyflwynwyd papur yng nghyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol yn rhoi amlinelliad o gyllideb 2008/09. Roedd yn gosod rhai o'r pwysau ariannol mae'r Gwasanaeth yn wynebu yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mynegodd aelodau eu dymuniad i dderbyn rhagor o wybodaeth am y gyllideb refeniw mewn papur dilynol.

**4.** Man cychwyn cyllideb y flwyddyn nesaf yw cyllideb refeniw 2007/08 o £29.5 miliwn. Bydd aelodau yn cofio nad oedd y gyllideb yma'n darparu am unrhyw chwyddiant i gyflenwadau a gwasanaethau. Roedd hyn, mewn effaith, yn doriad o 2.5% ar draws yr holl gyflenwadau a gwasanaethau ar amser lle'r oedd costau tanwydd ac egni yn codi'n gyflym.

**Manylion**

**5.** Mae'r gyllideb o £29.5 miliwn yn cynnwys

| | £ miliwn | % o'r gyllideb | Nifer o staff | Cyfatebol yn llawn amser |
|---|---|---|---|---|
| Diffoddwyr Tân Llawn Amser a Swyddogion | 15 | 51% | 298 | 298 |
| Diffoddwyr Tân ar y system dyletswydd rhan amser | 4.7 | 16% | 578 | 540 |
| Staff yr Ystafell Reoli | 1.0 | 3.4% | 31 | 31 |
| Staff Cefnogi | 2.2 | 7.4% | 118 | 106 |
| Hyfforddiant | 0.3 | 1% | | |
| Costau'r Adeiladau – costau rhedeg | 1.0 | 3.4% | | |
| Costau Trafnidiaeth – costau rhedeg | 1.0 | 3.4% | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau (yn cynnwys Gwasanaethau Pwyllgor) | 2.3 | 7.7% | | |
| Cyfalaf Ariannu | 2.0 | 6.7% | | |

Costau gweithwyr

**6.** Fel a welir uchod, mae'r mwyafrif y gyllideb wedi ei wneud o gostau gweithwyr ac oherwydd hyn, mae'r nifer o swyddi sydd eu hangen i ddarparu'r Gwasanaeth yn cael ei adolygu'n gyson. Mae adolygiadau staffio ffurfiol wedi digwydd dros y bedair mlynedd diwethaf, dechreuodd hyn gydag adolygiad o dîm y prif swyddog yn 2001 oedd wedi lleihau dwy o'r swyddi i un swydd Prif Swyddog Cynorthwyol ac adolygiad i'r swyddogion yn 2003 cyn yr ailstrwythuro yn 2004. Yn 2004 ymgymerwyd ag adolygiad pwysig i gefnogaeth a staffio TGCh a datblygwyd adolygiad allanol ac achos busnes ar gyfer tîm mewnol ar gyfer cyfathrebu yn 2005. Un o'r cynigion yn y Cynllun Lleihau Risg drafft presennol yw i wneud adolygiad pellach o swyddogion wrth gefn. Yn olaf, mae adolygiad o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol ar ddechrau, yn ogystal ag adolygiad Cymru gyfan i ddarpariaeth a chynhaliaeth y fflyd.

Costau gweithwyr (parhad)

**7.** Yn gyffredinol, pan fydd swydd wag yn codi, fe'i hadolygir gan y Prif Swyddog Tân a gwneir penderfyniad os y dylid parhau gyda'r swydd, neu symud yr adnoddau i faes arall o'r Gwasanaeth. Enghraifft ddiweddar oedd y penderfyniad i beidio ag amnewid swydd reoli ond i ddefnyddio'r arian i benodi i ddwy swydd rheng flaen.

**8.** Rhaid i bob swydd newydd gael ei hariannu o arbedion effeithlonrwydd neu gan adrannau sy'n ailstrwythuro. Er enghraifft, eleni, ariannwyd swydd iechyd a diogelwch oedd gwir hangen, oedd yn adran un person, trwy ostwng lefelau stoc yn y storfa ac ariannwyd mecanydd ychwanegol trwy ostwng maint y gwaith sy'n cael ei is-gontractio i gontractwyr allanol.

**9.** Mae'r amrediad o wasanaethau Cefnogi sydd eu hangen i gefnogi staff rheng flaen i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus wedi dod yn fwy cymhleth dros y ddeng mlynedd diwethaf ac mae pob corff cyhoeddus yn cael eu harchwilio a'u craffu gan asiantaethau allanol yn llawer amlach nag yn y gorffennol. Yn unol â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, mae Gogledd Cymru wedi cwrdd â'r sialens drwy gyflogi arbenigwyr AD, TG a chyllid a gweithwyr ar amodau'r Llyfr Gwyrdd i ddarparu cefnogaeth weinyddol. Mae hefyd yn contractio rhai gwasanaethau cefnogi drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda'i awdurdodau unedol.

**10.** Fel sefydliad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflogi'r un gymhareb o staff cefnogi i weithwyr gweithredol â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru.

| Gwasanaeth Tân ac Achub | Nifer o staff Cefnogi | Nifer o staff Gweithredol | Cymhareb |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 106 | 442 | 0.23 |
| Canol a Gorllewin Cymru | 147 | 622 | 0.23 |
| De Cymru | 259 | 1108 | 0.24 |

Costau gweithwyr (parhad)

**11.** Mae nifer o gyfrifoldebau allweddol yn cael eu gwneud gan adrannau un neu ddau berson, megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Y Gyflogres, Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Pwyllgorau a'r Dimensiynau Newydd.

**Hyfforddiant**

**12.** Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn defnyddio Coleg y Gwasanaeth Tân ar gyfer datblygu ac asesu meistroli digwyddiad gweithredol a chyrsiau datblygu Diogelwch Tân craidd.  Mae'r ddau faes yma'n rai o gryfderau'r Coleg ar hyn o bryd, yn wir, mae'r cyfleusterau digwyddiadau y gorau sydd ar gael ac yn darparu amgylchedd realistig iawn i ddatblygu staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i reoli digwyddiadau gweithredol yn ddiogel ac effeithiol o fewn ardal y gwasanaeth.  Mae'r adroddiad diweddar i farwolaeth dau Ddiffoddwr Tân yn Swydd Hertford yn ailbwysleisio pam ein bod ni, fel sefydliad angen parhau i fuddsoddi, ar y lefelau presennol o leiaf, i ddatblygu a chynnal cymwyseddau yn yr ardal risg critigol.

**Adeiladau**

**13.** Gellir gostwng costau rhedeg safleoedd yn y tymor canolig drwy gau gorsafoedd tân.  Rhaid gwneud hyn drwy'r broses Cynllun Lleihau Risg.  Gan fod angen ymgynghori gydag undebau llafur a chymunedau lleol, gallai'r broses hon gymryd tair mlynedd cyn i arbedion ymddangos.

Enghraifft: costau rhedeg gorsaf rhan amser £12,000 y flwyddyn
Enghraifft: costau rhedeg gorsaf criw dydd llawn amser £50,000 y flwyddyn

## Peiriannau a cherbydau

**14.** Mae peiriannau yn cael eu prynu trwy gyfalaf ond yn cael eu cynnal drwy'r gyllideb refeniw. Mae penderfyniad i newid y nifer a math o beiriannau hefyd yn destun y broses Cynllun Lleihau Risg. Rhoddwyd ystyriaeth i'r buddion o ymestyn bywyd peiriannau, sy'n 15 mlynedd ar hyn o bryd a cherbydau ysgafn sydd rhwng 5 a 7 mlynedd. Byddai hyn yn caniatáu gohirio'r rhaglen ailosod am 2 flynedd a rhaid iddo gydbwyso yn erbyn costau prydlesu, atgyweirio a chynnal.

## Cyflenwadau a Gwasanaethau

**15.** Roedd cyflenwadau a gwasanaethau yn bwnc toriad o 2.5% y llynedd oherwydd y ffaith ei fod yn gyllideb sefydlog. Oherwydd y pwysau sy'n wynebu'r gyllideb, penderfynwyd rhewi'r cyllidebau yma am flwyddyn arall, gan wneud arbedion effeithiolrwydd cronnus o 4.55% dros ddwy flynedd. Rydym ni'n archwilio sut allwn ni gaffael yn fwy effeithiol ac effeithlon trwy Gwerth Cymru a Firebuy.

## Arbedion Effeithlonrwydd eraill

**16.** Yn dilyn gwaith pellach ac mewn ymgynghoriad gyda'r Trysorydd, gellir gwrthbwyso rhai o'r pwysau ddisgrifir yn y papur blaenorol gan yr arbedion effeithlonrwydd canlynol.

- **Drwy fenthyca'r arian** sydd ei angen am gyfalaf 3 mlynedd o flaen llaw a rhoi hyn ar dyddodyn, gallai hyn gynhyrchu £180,000 y flwyddyn gydag ychydig iawn o risg i'r Awdurdod. Gellid defnyddio hwn i gwrdd â'r cynnydd yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chostau cyfreithiol ychwanegol.

## **Arbedion Effeithlonrwydd eraill** *(parhad)*

- **Pensiynau Afiechyd –** wedi dilyn y canllaw ar gyfer y cynllun pensiwn newydd, rhoddwyd £333,000 i'r gyllideb i gwrdd â blwyddyn 1 o 3 yr ymddeoliadau oherwydd afiechyd. Roedd hwn i fod i ariannu 2 ymddeoliad oherwydd afiechyd haen uwch (diffoddwyr tân nad ydynt yn ddigon iach i gael unrhyw gyflogaeth amgen) a 2 ymddeoliad oherwydd afiechyd haen is (ddim yn iach i fod yn ddiffoddwr tân, ond yn gallu gwneud gwaith arall). Dros y pum mlynedd diwethaf, y cyfartaledd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw 3 ymddeoliad oherwydd afiechyd y flwyddyn. Cyn 2007, nid oedd ymddeoliadau oherwydd afiechyd yn cael eu dosbarthu fel ymddeoliadau haen uwch neu is. Mae'r penderfyniad i beidio â gostwng y gyllideb sylfaenol wedi ei chymryd ond hefyd i beidio â'i chynyddu ar gyfer 2008/09. Os fydd unrhyw ymddeoliadau oherwydd afiechyd yn digwydd, gellir cwrdd â'r rhain am un flwyddyn o'r gronfa bensiwn afiechyd wrth gefn bresennol.

- **Cynnal ond nid cynyddu'r nifer o weithwyr y System Dyletswydd Rhan Amser** – yn hanesyddol, nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gallu recriwtio hyd at y ffigwr sefydliadol llawn i staff y System Dyletswydd Rhan Amser. Os fyddwn ni'n gostwng y gyllideb i'r lefel Cyfatebol Llawn Amser rydym ni'n gyflogi, gan sicrhau ailosod unrhyw weithwyr sy'n gadael, gellir gostwng y pwysau cyflog o £200,000. Fodd bynnag, os fyddai nifer uchel o weithwyr yn cael eu galw allan oherwydd llifogydd a thân, ni fydd gennym ni 'rwyd diogelwch' i gwrdd â'r costau hyn.

**Arbedion Effeithlonrwydd eraill** *(parhad)*

- **Gan dybied codiad cyflog o 2.0% ar gyfer 2008/09 –** gan gadw mewn golwg fod staff gweithredol yn derbyn dyfarniad cyflog o 2.4% eleni a'r tebygrwydd bydd codiadau cyflog y sector gyhoeddus yn cael ei gyfyngu i oddeutu 2.0% ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Fe ddefnyddiodd y papurau blaenorol 3% i gyfrifo chwyddiant cyflog. Ar gyfer pob 1% yn uwch na'r ffigwr yna, byddai rhaid i'r Awdurdod ddarganfod £250,000 ychwanegol.

## 17. Opsiynau Arbedion Effeithlonrwydd

- **Cyfraniad y cyflogwyr i gynllun pensiwn y System Dyletswydd Rhan Amser**

Eleni, rhoddwyd y cyfle i holl weithwyr y System Dyletswydd Rhan Amser ymuno â chynllun pensiwn newydd y diffoddwyr tân. O'r 590 o staff gyflogwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, penderfynodd 120 i ymuno.

Gallai fod yn synhwyrol gwneud darpariaeth ar gyfer 50% o holl staff y system dyletswydd rhan amser i ymuno â'r cynllun, yn seiliedig ar y niferoedd sydd wedi ymuno â'r cynllun yn genedlaethol. Byddai hyn yn golygu cynnydd o £357,000 yn y gyllideb.

Fodd bynnag, gan fod y gallu i ymuno â'r cynllun pensiwn wedi bod yn agored ac wedi ei gyhoeddi ers 1 Ebrill 07, gallai Aelodau gredu y byddai'r rhai oedd yn dymuno ymuno â'r cynllun fod wedi gwneud hynny eisoes a byddai cynnydd o £148,000 yn ddigonol i ariannu'r 120 o weithwyr y System Dyletswydd Rhan Amser sydd wedi cymryd yr opsiwn i ymuno â'r cynllun pensiwn.

## 17. Opsiynau Arbedion Effeithlonrwydd *(parhad)*

- **Diogelwch Cymunedol**

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd statudol nawr i hyrwyddo diogelwch cymunedol fel rhan o'i Gynllun Lleihau Risg drafft. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn anelu i gwblhau 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn flynyddol. Mae hyn er mwyn sicrhau fod pob cartref yng Ngogledd Cymru yn derbyn archwiliad diogelwch yn y cartref o fewn 9 mlynedd. Mae hyn yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gyda chymorth grant o £200,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad egluro dyfodol tymor hir y grantiau yma ac adnabod os ydynt yn mynd i gael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Mae cwblhau'r lefel yma o archwiliadau yn y cartref yn cael ei wneud drwy ddargyfeirio adnoddau o feysydd eraill o fewn y gwasanaeth, nid yw hyn yn gynaliadwy.

Gellir ariannu Diogelwch Cymunedol ar ba bynnag lefel mae'r Awdurdod yn benderfynu arno, gyda'r cynnydd cyfatebol mewn diogelwch. Mae opsiwn i beidio ag ariannu unrhyw gynydd yn y gwaith yma. Yn yr achos hynny, byddai lefelau gweithgaredd achos yn newid yn ôl yn llai na 10,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref y flwyddyn gyflawnwyd yn 2005/06, gyda'r posibilrwydd y gallai'r cyfradd diweddar mewn marwolaethau tân gael ei gynnal hefyd.

## 18. Pwysau yn y dyfodol

Mae nifer o bwysau costau anfesuredig fydd angen mynd i'r afael â hwynt yn 2009/10 a thu hwnt. Cost y system radio newydd *Firelink* a chost newid offer amddiffyn personol drwy brosiect dilledu integredig neu drwy ffyrdd eraill.

## 18. Pwysau yn y dyfodol *(parhad)*

Mae'n amlwg y byddai aelodau yn dymuno cymryd setliadau Grant Cefnogi Refeniw (RSG) y dyfodol i ystyriaeth ar gyfer 2008/09 a thu hwnt, fydd yn rhan o'r setliad tair mlynedd. Ni fydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant mor hael ag y mae wedi bod yn y gorffennol a bydd hyn yn effeithio'r sector gyhoeddus gyfan. Mae arwyddion y bydd setliadau yng Nghymru oddeutu 2%-2.5% allai gynnwys unrhyw fentrau newydd.

I grynhoi, drwy wneud arbedion effeithlonrwydd a rheoli rhai o'r pwysau costau a dewis yr opsiwn isaf i bensiynau y System Dyletswydd Rhan Amser a'r cyfanswm llawn ar gyfer diogelwch cymunedol, yna byddai'r cynnydd yn y gyllideb yn £1.27 miliwn sy'n gynydd o 4.29%.

Am bob 1% sy'n is na'r cynnydd, rhaid darganfod £300,000 o arbedion.

## 19. Argymhelliad

Fod aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.